

Dirnad Economi Cymru

Adroddiad blynyddol

Medi 2023

Crynodeb	3
1. Rhagymadrodd	6
2. Rhagolygon economaidd byd-eang, y DU a rhanbarthol	7
3. Darlun BBaCh yn y DU a Chymru: Amodau newidiol yn llywio'r galw am gyllid	15
4. Darparu cyllid BBaCh a chost cyllid	22
5. Gweithgarwch Banc Datblygu Cymru	28
6. Effaith economaidd buddsoddiadau'r Banc Datblygu 2022/23	36
7. Casgliadau	38
Atodiad 1: Methodoleg amcangyfrif GYC	39
Atodiad 2: Adnoddau dethol a ddiweddarir yn aml	41

Max Munday, Annette Roberts, Neil Roche a Wanxiang Cai

Uned Ymchwil Economi Cymru, Ysgol Busnes Caerdydd
mundaymc@cf.ac.uk

I gael rhagor o wybodaeth neu i gyflwyno adborth a chynigion ymchwil, e-bostiwch: **DirnadEconomi@bancdatblygu.cymru**

Mae'r SYG wedi rhoi cyngor ar gynhyrchu'r adroddiad hwn ond nid yw'n gyfrifol am y safbwyntiau na'r ystadegau a gyflwynir ac nid yw wedi dilysu'r cynnwys.

Dirnad Economi Cymru Cyfyngedig, Uned J Pentref Busnes Iâl, Ffordd Ellice, Wrecsam, Cymru, LL13 7YL, 11001584.

Banc Datblygu Cymru ccc (Development Bank of Wales Plc) yw cwmni daliannol Grŵp sy'n masnachu fel Banc Datblygu Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys nifer o is-gwmnïau sydd wedi'u cofrestru ag enwau gan gynnwys y blaenlythrennau BDC. Mae Banc Datblygu Cymru ccc yn gwmni cyllid datblygu sy'n eiddo'n gyfan gwbl i Weinidogion Cymru ac nid yw wedi'i awdurdodi na'i reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (ARhD) na'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (AYA). Mae gan Fanc Datblygu Cymru (Development Bank of Wales Plc) dri is-gwmni sydd wedi'u hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr AYA. Sylwch nad yw Banc Datblygu Cymru ccc nac unrhyw un o'i is-gwmnïau yn sefydliadau bancio nac yn gweithredu felly. Mae hyn yn golygu na all unrhyw un o endidau'r grŵp dderbyn blaendaliadau gan y cyhoedd. Mae siart strwythur cyfreithiol cyflawn ar gyfer Banc Datblygu Cymru ccc ar gael yn **bancdatblygu.cymru**.

Dyma bumed Adroddiad blynyddol Dirnad Economi Cymru. Mae'r adroddiad yn darparu adolygiad o ddata economaidd sy'n berthnasol i ddatblygiad BBaChau yng Nghymru a chrynodeb o weithgareddau buddsoddi Banc Datblygu Cymru yn ystod pedwerydd chwarter blwyddyn ariannol 2022/23, a thrwy gydol y flwyddyn.

Mae amodau economaidd y DU yn parhau i fod yn heriol. Y prif benawdau yng nghanol mis Mehefin oedd **penderfyniad Banc Lloegr i godi cyfraddau llog eto 0.5 o'r pwynt canran i 5% sydd wedi codi eto i 5.25% ym mis**

Awst. Mae hyn yn cael effeithiau difrifol ar aelwydydd, galw defnyddwyr a bydd yn adleisio drwodd i gostau ariannol i gwmnïau bach.

Yn rhyngwladol, mae ofnau y bydd dirwasgiadau yn ganlyniad i erlid cyfraddau chwyddiant i lawr. Ymatebodd marchnadoedd stoc yn UDA, y DU ac Ardal yr Ewro yn negyddol i'r rowndiau o gynnydd mewn cyfraddau llog ac maent yn cynnwys pryderon y gallai twf economaidd arafu'r flwyddyn hon.

Amodau economaidd sy'n wynebu mentrau bach.

Yn eu Rhagolygon Economaidd Byd-eang (Mehefin 2023), rhybuddiodd Banc y Byd am "gyflwr ansicr" yr economi fyd-eang gyda thynhau cryf ar bolisi ariannol. Maent yn rhagweld y **disgwylir i dwf economaidd byd-eang fod wedi gostwng o 3.1% yn 2022 i 2.1% yn 2023**. Mewn economïau mwy datblygedig rhagwelir y bydd twf yn gostwng o 2.6% yn 2022 i ddim ond 0.7% yn 2023.

Mae Rhagolygon Economaidd yr OECD (Mehefin 2023) yn rhagweld twf byd-eang o 2.7% yn 2023 gyda chynnydd i 2.9% yn 2024. **Ar gyfer y DU, roedd yr OECD yn rhagweld twf o 0.3% yn 2023, gan wella i 1.0% yn 2024.**

Yn ôl y SYG, gostyngodd MPD deuddeg mis yn y DU o 8.7% ym mis Mai 2023 i 7.9% ym mis

Mehefin. Gostyngodd cyfradd chwyddiant flynyddol prisiau allbwn cynhyrchwyr (giât ffatri) 2.6 pwynt canran o 2.7% ym mis Mai 2023 i 0.1% ym mis Mehefin 2023.

Tyfodd economi'r DU 0.1% yn 2023

Ch1. Yn y chwarter blaenorol, 2022 Ch4, amcangyfrifwyd twf hefyd o 0.1%.

Yn dilyn gostyngiad o 0.2% yn Ch4 2022, **cododd buddsoddiad busnes y DU yn Ch1 2023 0.7% i'w lefel uchaf ers y pandemig ond mae'n parhau i fod 1.4% yn is na lefelau Ch4 2019**. Priodolwyd y twf mewn buddsoddiad busnes yn bennaf i gyfraniadau cadarnhaol gan offer TGCh a pheiriannau ac offer eraill, a chynhyrchion eiddo deallusol.

Roedd cyfraddau diweithdra rhanbarthol uchaf y DU yn y tri mis hyd at fis Mai 2023 yng Nghymru (5%), Gorllewin Canolbarth Lloegr (5%), a Llundain (4.9%). Cyfradd gymharol y DU oedd 4%. Yng Nghymru y gwelwyd y cynnydd mwyaf yn y gyfradd ddiweithdra o gymharu â'r un cyfnod y llynedd (cynnydd o 1.2 pwynt canran). Fodd bynnag, **bu gostyngiad bach yng nghyfrif hawllyr budd-daliadau cysylltiedig â diweithdra yng Nghymru yn ystod y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2023 i 3.3%** o'r boblogaeth oedran gweithio (o gymharu â 3.7 yn y DU).

Yn y cyfnod rhwng mis Mawrth a mis Mai 2023, nifer y swyddi gwag yn y DU oedd 1,051,000, sy'n ostyngiad o 79,000 ers y chwarter blaenorol. Roedd cynnydd yn nifer y gweithwyr cyflogres yn y DU ym mis Mai 2023 i 30m, cynnydd o 1.6% dros y ffigur ar gyfer Mai 2022. **Yng Nghymru tyfodd nifer y gweithwyr cyflogres 1.5% i 1.3m yn y flwyddyn hyd at fis Mai 2023.**

Yng Nghymru, y gyfradd ddiswyddo ar gyfer y cyfnod o dri mis hyd at fis Mai 2023 oedd 3.3 fesul 1,000 o weithwyr (gostyngiad o 3.6 yn y tri mis hyd at fis Ebrill 2023). Roedd ffigur cymharol y DU ar gyfer y tri mis hyd at fis Mai 2023 hefyd yn 3.3 fesul 1,000 o weithwyr.

Cynyddodd gwerth enwol allforion

Cymru 25.6% i £20.9 biliwn dros y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2023.

Yn eu Rhagolwg Economaidd Gwanwyn y DU, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2023, nododd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (a adwaenir yn gryno fel NIESR) ei fod yn disgwyl "twf swrth" ar gyfer CDG y DU yn 2023 o 0.3%, a rhagwelodd dwf CDG y DU o 0.6% yn 2024, gan godi i 1.1% yn 2025.

Galw a chyflenwad cyllid BBaChau.

Gwelodd mynegai hyder busnesau bach Ffederasiwn Busnesau Bach y DU rywfaint o adferiad ar ôl gostyngiadau yn y tri chwarter yn arwain at 2023 Ch1. Symudodd hyder o -45.8 yn 2022 Ch4 i -2.8 yn 2023 Ch1. Er gwaethaf aros mewn tiriogaeth negyddol, y cynnydd o 43 pwynt yw'r trydydd gwelliant chwarterol mwyaf erioed. Cyrhaeddodd cydbwysedd net y busnesau bach a nododd gynnydd mewn costau gweithredu yr uchaf erioed o 88.7%.

Yng **Nghymru gwelwyd 2,875 o fusnesau yn cael eu geni a 3,620 o farwolaethau busnes yn ystod 2023 Ch1.** Mae'r bwlch rhwng genedigaethau busnes a marwolaethau wedi ehangu yn y chwarteri diwethaf.

Ar gyfer y mentrau lleiaf mae mwy o debygolrwydd y bydd gostyngiad mewn incwm busnes a achosir gan chwyddiant costau yn gysylltiedig ag anallu i drosglwyddo codiadau costau i gwsmeriaid mwy. **Mae yna hefyd y bwgan y gallai aelwydydd hunangyflogedig brofi lefelau uwch o amddifadedd materol o gymharu ag aelwydydd sy'n cynnwys gweithwyr,** a chydag ymchwil yn awgrymu y gallai cynnydd mewn hunangyflogaeth fod wedi arwain at gynnydd mewn tlodi mewn gwaith.

Cynyddodd nifer yr ansolfedd cwmnïau cofrestredig yng Nghymru a Lloegr i 2,552 ym mis Mai 2023, sef **y lefel uchaf am y pedair blynedd diwethaf.** Roedd dyfarniadau Llys Sirol i fyny 15% i 264,000 yn 2023 Ch1 o gymharu â 2022 Ch1. Mae'r dyfarniadau hyn yn rhagfynegi ansolfedd yn y dyfodol yn rhannol, sy'n peri pryder arbennig, yn enwedig o'u gosod ochr yn ochr â'r codiadau cyfradd llog diweddar.

Datgelodd Monitor Cyllid BBaCh BVA BDRC ar gyfer Ebrill 2023 fod amcangyfrif o 29% o'r holl BBaChau a ymatebodd yn y DU (ac eithrio busnesau yn dechrau o'r newydd) gan nodi twf yn y 12 mis diwethaf. Mae

hyn yn cymharu â ffigur o 26% o BBaChau a ymatebodd yng Nghymru yn ystod 2022 Ch4. Dywedodd tua 44% o fusnesau bach a chanolig yn y DU fod costau cynyddol wedi cael effaith sylweddol ar eu busnes yn ystod y tri mis diwethaf. **Yn 2022 Ch4, dywedodd 40% o'r BBaChau Cymreig a ymatebodd fod costau wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y misoedd diwethaf,** o gymharu â 51% o BBaChau yng Nghymru a nododd gynnydd sylweddol mewn costau yn 2022 Ch2.

Fe wnaeth y Monitor Cyllid Busnesau Bach a Chanolig ar gyfer mis Ebrill 2023 fod 41% o BBaChau y DU yn defnyddio cyllid allanol yn ystod y tri mis diwethaf, sy'n dangos rhywfaint o adferiad o gymharu â'r ffigur o 34% yn 2022 Ch4. **Yn 2022 Ch4 roedd 28% o BBaChau yng Nghymru yn defnyddio cyllid allanol.**

Datgelodd Arolwg o Effeithiau ac Amodau Busnes (BICS) gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod **15.5% o fusnesau wedi nodi cynnydd mewn trosiant ym mis Mai 2023,** sydd ychydig yn is na'r misoedd blaenorol. Dywedodd amcangyfrif o 23% o fusnesau fod gwerthiant yn is ym mis Mai 2023 o gymharu ag Ebrill.

Dangosodd Arolwg o Amodau Credyd 2023 Ch1 fod benthycwyr yn adrodd bod y cyflenwad credyd cyffredinol i fusnesau wedi aros yr un fath ar gyfer busnesau o bob maint. **Gostyngodd y galw am fenthycia busnes ar gyfer busnesau o bob maint.**

Mynegodd Asiantau Banc Lloegr (2023 Ch2) fod bwriadau buddsoddi a'r galw am gredyd yn parhau i fod yn dawel. Dywedodd Banc Lloegr fod y galw am gyfalaf gweithio yn parhau i fod yn uchel.

Mae cyfraddau llog cyfartalog ar fenthyciadau BBaChau wedi cynyddu am 19 mis yn olynol, o 2.65% ym mis Hydref 2021 i 6.8% ym mis Ebrill 2023 wrth i'r cyfraddau sylfaenol gynyddu. Y prif benawdau yng nghanol mis Mehefin oedd **penderfyniad Banc Lloegr i godi'r gyfradd llog sylfaenol eto 0.5 pwynt canran i 5%.**

Adroddodd Traciwr Ecwiti Busnesau Bach Banc Busnes Prydain fod cyllid ecwiti'r DU wedi gostwng 11% i £16.7bn yn 2022. Gwelodd Cymru gynydd yn nifer y bargeinion ecwiti a gyhoeddwyd ond gostyngiad o 10% yng ngwerth y buddsoddiad yn 2022.

Datgelodd cronfa ddata FAME Bureau van Dijk o ddata Tŷ'r Cwmnïau **yr amcangyfrifwyd bod 5.2% o BBaChau Cymru yn y categori statws credyd risg uchaf ym mis Mehefin 2023, i fyny o tua 4.8% ym mis Mehefin 2022.**

Banc Datblygu Cymru.

Yn 2022/23 cwblhaodd Banc Datblygu Cymru **516 o fuddsoddiadau**, gyda chyfanswm gwerth o ychydig dros £124m. Roedd y buddsoddiadau hyn yn gysylltiedig â bron i **3,500 o swyddi newydd ac wedi'u diogelu.**

Roedd dros 61% o fuddsoddiadau yn ôl gwerth yn 2022/23 wedi'u cyfrif gan fenthyciadau ac ecwiti, gyda'r 39% sy'n weddill yn gysylltiedig

â buddsoddiadau datblygu eiddo. Yn gyfan gwbl, roedd 18% o'r gwerth a fuddsoddiwyd yn 2022/23 yn ymwneud â buddsoddiadau ecwiti o bron i £23m yn dilyn perfformiad cryf yn ail hanner y flwyddyn. Gwnaethpwyd tua 42% o gyfanswm gwerth y buddsoddiadau i gwmnïau yn ne-ddwyrain Cymru yn ystod 2022/23, gyda chwmnïau yn y canolbarth a'r de-orllewin, a'r rheini yng ngogledd Cymru yn cael tua 34% a 24% o werth y buddsoddiad yn y drefn honno.

Roedd nifer cronol y buddsoddiadau a wnaed gan y Banc Datblygu yn ei bum mlynedd gyntaf hyd at ddiwedd 2022/23 dros 3,642, gyda gwerth y buddsoddiadau yn fwy na £610m. Mae hyn yn cynnwys ei Gynllun Benthyciadau Busnes Covid-19 Cymru a ddarparwyd yn ystod y pandemig.

Mae'r Adroddiad blynyddol yn cynnwys dadansoddiad o'r GYC amcangyfrifedig sy'n gysylltiedig â chyflogaeth wedi'i gefnogi gan £75.8m o ddyled Banc Datblygu a chyllid ecwiti drwy gydol y flwyddyn. Nid yw'r dadansoddiad hwn yn cynnwys ei fuddsoddiadau datblygu eiddo. Datgelodd hyn fod GYC Cymru yn gysylltiedig â 1,358 (gros) o swyddi newydd yn gysylltiedig â £75.8m o weithgarwch dyled ac ecwiti Banc Datblygu yn 2022/2023 yn £64.9m. Yn yr un modd, GYC Cymru sy'n gysylltiedig â'r 2,076 (gros) o swyddi a ddiogelwyd yw £135.7m.

Gyda'i gilydd amcangyfrifir bod cyfanswm y swyddi uniongyrchol a grëwyd ac a ddiogelwyd gan fuddsoddiadau dyled ac ecwiti yn 2022/23 yn gysylltiedig â £200.6m o GYC mewn termau gros a **£120.5m o GYC mewn termau net unwaith y rhoddir ystyriaeth i bwysau marw tybiedig, dadleoli, effeithiau amnewid a lluosogol.** Mae hyn yn cyfateb i **gynydd net amcangyfrifedig mewn GYC Cymru o tua £35,100** ar gyfer pob swydd a grëwyd neu a ddiogelir gan fuddsoddiadau dyled ac ecwiti.

Dyma bumed Adroddiad blynyddol Dirnad Economi Cymru. Mae'r adroddiad yn darparu adolygiad o ddata economaidd sy'n berthnasol i ddatblygiad BBaChau yng Nghymru a chrynodeb o weithgareddau buddsoddi Banc Datblygu Cymru yn ystod pedwerydd chwarter blwyddyn ariannol 2022/23, a dadansoddiad o berfformiad y Banc o ran creu a diogelu swyddi gan weithgarwch buddsoddi. Mae'r adroddiad yn cynnwys sylwebaeth ar y cyd-destun economaidd byd-eang a lleol a'r amodau sy'n effeithio ar y cyflenwad a'r galw am gyllid yng Nghymru.

Mae adrannau 2-4 o'r adroddiad hwn yn darparu'r cyd-destun macro-economaidd y mae BBaChau Cymru yn gweithredu ynddo ac yna'n archwilio ffactorau sy'n ymwneud â'r galw am gyllid BBaChau, a'r cyflenwad a'r gost ohono. Mae adran 5 yn crynhoi gweithgareddau Banc Datblygu Cymru tra bod adran 6 yn dadansoddi effaith economaidd y buddsoddiadau a wnaed gan y Banc Datblygu yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23. Mae'r adran olaf yn rhoi rhai casgliadau cyffredinol i'r adroddiad.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig i raddau helaeth ar ddata sydd ar gael i'r cyhoedd (a adroddir yn gyffredinol mewn blynyddoedd calendr) ynghyd â dadansoddiad arbennig o ddata a ddarparwyd gan Fanc Datblygu Cymru (adroddir yn bennaf mewn blynyddoedd ariannol). Oherwydd gwahaniaethau yn y cyfnodau adrodd, bydd rhywfaint o ddiffyg cyfatebiaeth amserol rhwng data yn yr adroddiad hwn.

Yn y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn, rhoddodd Dirnad Economi Cymru ei gynlluniau ehangu ar waith. Ymunodd partneriaid academaidd newydd, Ysgol Busnes Bangor a'r Ganolfan Ymchwil Menter, â'r cydweithrediad ymchwil. Bydd yr aelodau newydd hyn yn cynhyrchu adroddiadau ac yn datblygu mewnwelediad pellach i'r materion amser real sy'n effeithio ar economi Cymru.

- Mae gan Ysgol Busnes Bangor enw da yn rhyngwladol ym maes bancio a chyllid ac mae'n cael ei chydabod fel 'Canolfan Ragoriaeth' Sefydliad Bancwyr Siartredig. Ar hyn o bryd mae hefyd ar y safle uchaf o holl brifysgolion y DU am ymchwil ym maes Bancio.
- Y Ganolfan Ymchwil Menter (CYM / ERC) yw prif ganolfan ragoriaeth y DU ar gyfer ymchwil i dwf, arloesedd a chynhyrchiant busnesau bach a chanolig (BBaCh), gyda ffocws penodol ar yrwyr twf, arloesedd a pherfformiad BBaChau. Mae ei hymchwil yn helpu i lunio'r polisiau a'r arferion sy'n galluogi BBaChau i ffynnu.

Ers yr Adroddiad blynyddol diwethaf ym mis Medi 2022, mae Dirnad Economi Cymru wedi cyhoeddi'r adroddiadau a ganlyn:

- [Adroddiad chwarterol, Tachwedd 2022](#)
- [Ymyriadau ariannol Covid-19 Llywodraeth Cymru: Dadansoddiad o ddata arolygon gweinyddol a buddiolwyr, Ionawr 2023](#)
- [Adroddiad chwarterol, Chwefror 2023](#)
- [Adroddiad chwarterol, Mai 2023](#)

Dros y flwyddyn i ddod, bydd Dirnad Economi Cymru yn cyhoeddi adroddiadau ar y pynciau a ganlyn:

- gwerthuso effeithiau ymyriadau ariannol Covid-19 Llywodraeth Cymru ar fusnesau,
- Busnesau ymchwil a datblygu-ddwys a thwf economaidd yng Nghymru,
- asesu a yw ecwiti cam cynnar ar gael yng Nghymru,
- polisiau di-garbon net a mentrau BBaCh tuag at ddatgarboneiddio.

- Mae tynhau polisi ariannol i gyfyngu ar chwyddiant mewn economïau mawr yn cyfyngu ar yr economi fyd-eang. Mae rhagolwg twf byd-eang Banc y Byd o 2.3% yn 2023 yn dal i fod yn is na'r gyfradd twf gyfartalog yn y ddau ddegawd cyn y pandemig o 3.1%.
- Roedd ymatebion polisi cyflym i bob golwg wedi ffrwyno ansefydlogrwydd diweddar yn y system ariannol fyd-eang ac wedi atal difrod pellach i fanciau – er bod sensitifrwydd i ddisgwyliadau cyfraddau llog yn parhau.
- Roedd data amcangyfrifedig chwarterol cyntaf o CMC yn dangos bod economi'r DU wedi tyfu 0.1% yn Ch1 2023, yr un gyfradd ag yn y chwarter blaenorol, 2022 Ch4.
- Roedd cyfraddau diweithdra rhanbarthol uchaf y DU yn y tri mis hyd at fis Mai 2023 yng Nghymru (5%), Gorllewin Canolbarth Lloegr (5%), a Llundain (4.9%). Cyfradd gymharol y DU oedd 4%.

Mae amodau economaidd y DU yn parhau i fod yn anodd, ac nid oes llawer wedi newid ers yr Adroddiad chwarterol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2023. Y prif benawdau yng nghanol mis Mehefin oedd penderfyniad Banc Lloegr i godi cyfradd llog sylfaenol eto 0.5 pwynt canran i 5% y maent wedi codi eto i 5.25% ym mis Awst. Mae'n annhebygol mai hwn fydd y cynnydd olaf yn y gyfradd llog eleni. Mae hyn yn cael effeithiau difrifol ar aelwydydd, galw defnyddwyr a bydd yn adleisio costau ariannol i gwmnïau bach. Cymaint yw difrifoldeb y cynnydd diweddaraf fel bod Trysorlys y DU wedi broceru cytundeb yn gyflym gyda phrif fenthycwyr morgeisi'r DU am oedi o 12 mis cyn i dai gael eu hadfeddiannu yn dilyn diffyg talu.

Yn y cyfamser roedd cyfraddau chwyddiant yn economi'r DU wedi bod yn ystyfnig yn gwrthsefyll ymdrechion gan lunwyr polisi a Banc Lloegr i ddod â nhw o dan reolaeth. Amcangyfrifwyd bod enillion y sector preifat wedi cynyddu tua 7.6% dros y flwyddyn ddiwethaf, ond gyda chwyddiant yn uwch na'r gyfradd honno, er ei fod yn disgyn o 8.7% ym mis Mai i 7.9% ym mis Mehefin. Mae chwyddiant

mewn llawer o achosion yn dal i fod yn fwy na'r enillion a gyda hyn yn ysgogi parhad y don o streiciau. Yn wir, cymaint yw'r pwysau fel y gosododd clerigwyr Eglwys Loegr hawliad cyflog ffurfiol am y tro cyntaf yn eu hanes. O ganlyniad i'r gostyngiad mewn chwyddiant ym mis Mehefin, mae disgwyliadau ar gyfer cyfraddau llog brig wedi lleihau, ac ni ragwelir y bydd y rhain yn uwch na 6% erbyn dechrau 2024.¹

Yn rhyngwladol, mae ofnau cynyddol y bydd dirwasgiadau yn ganlyniad i fynd ar drywydd erlid cyfraddau chwyddiant i lawr. Mae marchnadoedd stoc yn yr Unol Daleithiau, y DU ac Ardal yr Ewro wedi ymateb yn negyddol i rowndiau diweddar o gynnydd mewn cyfraddau llog ac maent yn cynnwys pryderon y gallai twf economaidd arafu eleni. Er bod cyfraddau chwyddiant wedi gostwng yn y rhan fwyaf o economïau mawr ers yr hydref, mae cyfraddau'n parhau'n uchel. Mae cyfradd chwyddiant y DU (ac eithrio bwyd ac ynni) yn rhedeg ar y blaen i MPD Ardal yr Ewro (Mynegai Prisiau Defnyddwyr) a PCE yr UD (mynegai gwariant defnydd personol). Mae'n ymddangos bod Ardal yr Ewro hefyd yn gweld rhywfaint o arafu

¹ <https://www.theguardian.com/business/2023/jul/19/uk-inflation-interest-rates-bank-of-england>

mewn gweithgaredd gweithgynhyrchu yn ôl data MRhP (Mynegai Rheolwyr Pwrcasu).²

Mae rhagolygon economaidd rhyngwladol hefyd yn parhau i gael eu heffeithio gan y rhyfela parhaus yn yr Wcrain a phwysau parhaus y cysylltiadau rhwng yr Unol Daleithiau a Tsieina.

Yn eu Rhagolygon Economaidd Byd-eang a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023, rhybuddiodd Banc y Byd am "gyflwr ansicr" yr economi fyd-eang gyda thynhau cryf ar bolisi ariannol i gyfyngu ar chwyddiant.³ Yn gynnar yn 2023, arweiniodd y cynnydd sydyn mewn cyfraddau llog at lawer o fanciau yn wynebu colledion sylweddol heb eu gwireddu, ac yna, yn rhai o'r banciau hyn yn yr Unol Daleithiau ac Ewrop, gan ehediad adnewwr ac ansefydlogrwydd. Er bod ymateb polisi cyflym i bob golwg yn cyfyngu ar hyn, ystyriwyd bod marchnadoedd ariannol yn sensitif iawn i ddisgwyliadau cyfraddau llog banciau canolog mawr yn y dyfodol. Nododd yr adroddiad hefyd, ers eu hanterth yn 2022, fod prisiau ynni wedi gostwng oherwydd rhagolygon twf byd-eang llai a gaeaf gogleddol cynnes. Roedd hyn yn lleihau'r defnydd o nwy naturiol a thrydan. Ar ben hynny, mae rhai economïau mawr yn Ardal yr Ewro wedi lleihau eu dibyniaeth ar nwy Rwsia ac wedi ceisio mwy o fewnforion nwy o'r Unol Daleithiau. Rhagamcanodd Banc y Byd y byddai chwyddiant yn gostwng yn araf wrth i'r galw ostwng a phrisiau nwyddau leddf, ar yr amod bod disgwyliadau chwyddiant tymor hwy yn parhau i fod yn sefydlog.

Gan gymryd y ffactorau hyn i ystyriaeth, mae Banc y Byd yn rhagweld y disgwylir i dwf economaidd byd-eang fod wedi gostwng o 3.1% yn 2022 i 2.1% yn 2023. Mewn marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg ac economïau sy'n datblygu (MDAMD), rhagwelir y bydd twf economaidd yn cynyddu o 3.7% yn 2022 i 4.0% yn 2023, sydd

0.6 pwynt canran yn uwch na'u rhagamcanion lonawr 2023. Mewn economïau mwy datblygedig rhagwelir y bydd twf yn gostwng o 2.6% yn 2022 i ddim ond 0.7% yn 2023, sydd 0.2 pwynt canran yn uwch na'u rhagamcanion ym mis Ionawr.

Nododd Rhagolwg Economaidd⁴ yr OECD a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023, er bod twf CDG byd-eang wedi arafu'n sylweddol trwy gydol 2022, y gallai sawl ffactor fod wedi lleihau risgiau economaidd. Roedd y rhain yn cynnwys gostyngiad mewn prisiau ynni a chwyddiant pennawd; llacio tagfeydd cyflenwad; Economi Tseina yn ail agor ar ôl y pandemig; cyflogaeth gref; a chyllid cartrefi cymharol gadarn. Fodd bynnag, nododd yr adroddiad hefyd fod yr adferiad yn debygol o fod yn gymedrol oherwydd pryderon megis chwyddiant craidd parhaus, a lefelau dyled cymharol uchel. Rhagamcanodd yr OECD dwf byd-eang o 2.7% yn 2023 gyda chynnydd i 2.9% yn 2024. Ar gyfer yr Unol Daleithiau rhagamcanodd dwf o 1.6% yn 2023, gan ostwng i 1.0% yn 2024; twf yn ardal yr Ewro o 0.9% yn 2023, gan godi i 1.5% yn 2024; ac yn y DU, twf o 0.3% yn 2023, gan wella i 1.0% yn 2024.

Nododd Diweddariad Canol Blwyddyn, Sefyllfa a Rhagolygon Economaidd y Byd, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023 gan y Cenhedloedd Unedig⁵, ddiwedd degawd o bolisi ariannol rhydd lle bu cyfraddau llog isel a lleddf meintiol yn ysgogi trosoledd gormodol yn y sector ariannol. Nododd yr adroddiad fod hyn wedi'i ddisodli gan gyfraddau llog uchel a thynhau meintiol, a oedd yn cyflwyno heriau, yn enwedig i wledydd sy'n datblygu. Rhagwelodd y Cenhedloedd Unedig y bydd twf economaidd byd-eang yn arafu o 3.1 y cant yn 2022 i 2.3 y cant yn 2023. Amlygwyd ganddynt fod y gyfradd twf hon yn is na'r gyfradd twf gyfartalog a gyflawnwyd mewn dau ddegawd cyn y pandemig (3.1%).

² Gweler <https://www.pmi.spglobal.com/Public/Home/PressRelease/6a9a73ef2b4d449eb8a8d9b827cb2070>

³ <https://openknowledge.worldbank.org/server/api/core/bitstreams/6e892b75-2594-4901-a036-46d0dec1e753/content>

⁴ https://www.oecd-ilibrary.org/economics/oecd-economic-outlook/volume-2023/issue-1_ce188438-cy

⁵ <https://www.un.org/development/desa/dpad/publication/world-economic-situation-and-prospects-as-of-mid-2023/>

Mae pwysau chwyddiant y DU yn parhau ond mae arwyddion eu bod yn lleddfu

Mae data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod chwyddiant prisiau cynhyrchwyr mewnbyn ac allbwn blyneddol wedi gostwng ym mis Mehefin 2023. Cyrhaeddodd y ddau werth mynegai hyn uchafbwynt ym mis Mehefin 2022, ac maent wedi gostwng yn sylweddol ers hynny. Gostyngodd prisiau allbwn cynhyrchwyr (giât ffatri) 2.6 pwynt canran o 2.7% yn y flwyddyn hyd at fis Mai 2023, i agos at sero yn y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2023, sef y gyfradd flynyddol isaf ers mis Rhagfyr 2020⁶. Roedd hyn i'w briodoli'n bennaf i'r cyfraniad am i lawr at y gyfradd chwyddiant allbwn blyneddol ym mis Mehefin 2023 o gynhyrchion petrolewm wedi'u mireinio, a oedd â chyfraniad negyddol o 4.7 pwynt canran. Daeth y cyfraniadau tuag i fyny gwrthbwyso mwyaf i'r gyfradd chwyddiant allbwn blyneddol ym mis Mehefin 2023 o gynhyrchion bwyd (cynnydd blyneddol o 2.0 pwynt canran) ac allbynnau eraill o weithgynhyrchu (1.5 pwynt canran).

Yn ôl y SYG, gostyngodd Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) deuddeg mis yn y DU o 8.7% ym mis Mai 2023 i 7.9% ym mis Mehefin. ⁷Y gyfradd ym mis Mehefin

2023 oedd yr isaf ers mis Mawrth 2022, ac mae'n cyferbynnu â'r uchafbwynt diweddar o 11.1% ym mis Hydref 2022.

Nododd crynodeb Polisi Ariannol Banc Lloegr ar gyfer mis Mehefin⁸ y disgwylir i chwyddiant MPD yn y DU ostwng yn sylweddol ymhellach yn ystod y flwyddyn, yn bennaf oherwydd datblygiadau mewn prisiau ynni, tra gallai chwyddiant MPD Gwasanaethau aros yn ddigyfnewid i raddau helaeth yn y tymor agos. Mae chwyddiant gwasanaethau yn fwy cysylltiedig â gyrwyr domestig megis cyflogaeth a chyflogau yn hytrach nag effeithiau ynni a bwyd wedi'i fewnforio, sydd â mwy o ddylanwad dros ffigwr pennawd chwyddiant.

Mae tystiolaeth o ddatblygiadau mewn dangosyddion cost a phris yn gynharach yn y gadwyn gyflenwi (fel gostyngiadau sydyn mewn chwyddiant prisiau allbwn cynhyrchwyr blyneddol a nodir uchod) yn awgrymu y bydd chwyddiant MPD nwyddau craidd yn gostwng yn ddiweddarach yn 2023. Ymhellach, mae'r adroddiad yn nodi, yn y misoedd nesaf, rhagwelir y bydd chwyddiant prisiau bwyd yn gostwng.

Amcangyfrifon twf CDG y DU yn dangos bod yr economi wedi ehangu ychydig yn y chwarter hyd at 2023 Ch1

Roedd data CDG amcangyfrifedig y chwarter cyntaf, a gyhoeddwyd gan y SYG ym mis Mai 2023, yn dangos bod economi'r DU wedi tyfu 0.1% yn 2023 Ch1.⁹ Yn y chwarter blaenorol, 2022 Ch4, amcangyfrifwyd twf hefyd o 0.1%. Roedd

lefel CDG chwarterol y DU yn Ch1 2023 0.5% yn is na'r lefel cyn-Covid (2019 Ch4). Yn ôl sector, amcangyfrifir bod allbwn mewn gwasanaethau wedi codi 0.1% yn Ch1 2023, yn dilyn cynnydd o 0.1% yn 2022 Ch4. Yr is-sector gwybodaeth

⁶ <https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/bulletins/producerpriceinflation/june2023including-services-april-to-march-2023#output-producer-price-inflation>

⁷ <https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/bulletins/consumerpriceinflation/latest>

⁸ <https://www.bankofengland.co.uk/monetary-policy-summary-and-minutes/2023/june-2023>

⁹ <https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/gdpfirstquarterlyestimateuk/januarytomarch2023>

a chyfathrebu (a gynyddodd 1.2% yn 2023 Ch1), ynghyd â gweithgareddau gweinyddol a gwasanaethau cymorth (cynnydd o 1.3%), a ddarparodd y cyfraniad cadarnhaol mwyaf at dwf, tra bu gostyngiadau mewn allbwn mewn addysg (0.7%), iechyd (0.5%), gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn (0.7%), a thrafnidiaeth a storio (1.0%). Roedd y gweithgareddau hyn lle bu gweithredu diwydiannol ar draws y chwarter. Yn 2023 Ch1, cododd allbwn cynhyrchu 0.1%, yn

dilyn dim twf yn y chwarter blaenorol. Roedd y cynnydd hwn wedi'i ysgogi'n bennaf gan weithgarwch Gweithgynhyrchu (cynnydd o 0.5%) ac ni welwyd unrhyw dwf yn y cyflenwad trydan a nwy. Cynyddodd allbwn y sector adeiladu 0.7% yn 2023 Ch1. Roedd hyn i'w briodoli'n bennaf i atgyweirio a chynnal a chadw (i fyny 4.9%) ond cafodd ei wrthbwysu'n rhannol gan ostyngiad o 1.9% mewn gwaith newydd.

Cynyddodd buddsoddiad busnes y DU yn 2023 Ch1

Yn dilyn cwmp o 0.2% yn Ch4 2022, cododd buddsoddiad busnes y DU yn Ch1 2023 0.7% yn ôl ffigurau a gyhoeddwyd gan y SYG.¹⁰ Priodolwyd y twf mewn buddsoddiad busnes yn bennaf i gyfraniadau cadarnhaol gan offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a

pheiriannau ac offer eraill, a chynhyrchion eiddo deallusol. Yn 2023 Ch1, roedd buddsoddiad busnes ar ei lefel uchaf ers y cyfnod pandemig cyn-coronafeirws (COVID-19) 2019 Ch4 ond mae'n parhau i fod 1.4% yn is na'r lefel honno.

Swyddi gweigion yn parhau i ostwng yn y DU

Yn y cyfnod rhwng mis Mawrth a mis Mai 2023, roedd nifer y swyddi gwag yn y DU yn 1,051,000, gan ostwng 79,000 o'r chwarter blaenorol, Rhagfyr 2022 i Chwefror 2023.¹¹ Rhwng mis Mawrth a mis Mai 2023, roedd cyfanswm y swyddi gwag i lawr 250,000 o'r lefel flwyddyn yn ôl. er eu bod wedi aros 250,000 yn uwch na'u lefelau cyn-bandemig rhwng Ionawr a Mawrth 2020.

Mae amcangyfrifon cynnar o Wybodaeth Amser Real Talu Wrth Ennill¹² yn dangos cynnydd yn nifer y cyflogeion ar y gyflogres yn y DU ar gyfer Mai 2023 i 30m, cynnydd o 460,000 (neu 1.6%) o'i gymharu â'r ffigur ar gyfer Mai 2022, a chynnydd

o 1,016,000 (neu 3.5%) ers mis Chwefror 2020. Cynyddodd cyflogaeth ar gyflogres 23,000 (0.1%) ym mis Mai 2023 o gymharu ag Ebrill 2023.

Roedd y cynnydd mwyaf mewn cyflogeion ar gyflogres yn y DU yn y flwyddyn hyd at fis Mai 2023, ar yn y sector iechyd a gwaith cymdeithasol (cynnydd o 183,000 o weithwyr neu 4.5%) ac ar ei leiaf yn y sector cyfanwerthu a manwerthu (gostyngiad o 43,000 neu -1.0%). Gwelodd y sector cyfanwerthu a manwerthu, adeiladu a'r categori gwasanaethau gweinyddol a chymorth gwmp yn nifer y cyflogeion ar y gyflogres rhwng mis Mai 2022 a mis Mai 2023. Roedd y cynnydd canrannol mewn cyflogeion

¹⁰ <https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/businessinvestment/januarytomarch2023provisionalresults>

¹¹ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/jobsandvacanciesintheuk/june2023>

¹² <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/earningsandemploymentfrompayasyouearnrealtimeinformationuk/june2023>

ar gyflogres dros y flwyddyn ar eu huchaf yn y celfyddydau, adloniant, a hamdden (6.0% neu 35,000 gweithwyr) a chyllid ac yswiriant (4.9% neu 51,000 o weithwyr).

Yng Nghymru tyfodd nifer y gweithwyr cyflogedig ar y gyflogres 19,800 (neu 1.5%) i 1.3m yn y flwyddyn hyd at fis Mai 2023.¹³ Mae data rhanbarthol y DU ar weithwyr cyflogedig

fesul sector yn cael ei ddiweddarau'n llai aml, ond mae'r data hyd at Ebrill 2023 yn dangos bod y cynnydd canrannol mewn gweithwyr cyflogres dros y flwyddyn yng Nghymru yr uchaf mewn cyllid ac yswiriant (6.9% neu 2,500 o weithwyr).¹⁴ Dros y flwyddyn hyd at Ebrill 2023, bu cynnydd o bron i 7,500 (neu 3.5%) o weithwyr cyflogedig yn y sector iechyd a gwaith cymdeithasol yng Nghymru, a 3,200 (neu 1.7%) mewn addysg.

Cymru sydd gan y gyfradd ddiweithdra uchaf ar y cyd yn y DU yn y cyfnod o dri mis hyd at fis Mai 2023

Amcangyfrifwyd bod cyfradd ddiweithdra'r DU ar gyfer y cyfnod o dri mis hyd at fis Mai 2023 yn 4%, sef cynnydd o 0.2 pwynt canran ers y cyfnod blaenorol o dri mis.¹⁵ Roedd y cyfraddau diweithdra rhanbarthol uchaf yn y DU yn y tri mis hyd at fis Mai 2023 yng Nghymru (5%), Gorllewin

Canolbarth Lloegr (hefyd 5%), a Llundain (4.9%), tra bod y cyfraddau isaf yng Ngogledd Iwerddon (2.5%), yr Alban (3.2%), a De-orllewin (3.2%). Yng Nghymru y gwelwyd y cynnydd mwyaf yn y gyfradd ddiweithdra o gymharu â'r un cyfnod y llynedd (cynnydd o 1.2 pwynt canran).

Gostyngiad yn nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra yng Nghymru yn ystod y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2023

Yn ystod y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2023, cynyddodd cyfrif hawlwr budd-daliadau cysylltiedig â diweithdra yn y DU bron i 4,000 i 1.55m o bobl.¹⁶ Yng Nghymru, hawliodd bron i 62,000 o bobl fudd-daliadau cysylltiedig â diweithdra (sy'n cyfateb i 3.3% o'r boblogaeth oedran gweithio, o gymharu â ffigur o 3.7% ar gyfer y DU) ym mis Mehefin 2023,¹⁷ sef gostyngiad o 2,300 o hawlwr o'r flwyddyn hyd at fis Mehefin 2022.¹⁸

Yr ardaloedd awdurdod unedol yng Nghymru sydd â'r gyfran uchaf o'r boblogaeth oedran gweithio yn hawlio budd-daliadau cysylltiedig â diweithdra, yn ôl y data ar gyfer Mehefin 2023,

oedd Casnewydd (4.5%), Blaenau Gwent (4.4%), Caerdydd (3.8%), Torfaen (3.7%), Ynys Môn (3.7%), Abertawe (3.6%), a Sir Ddinbych (hefyd 3.6%), a'r rhai â'r cyfrannau isaf oedd Powys (2.3%), Sir Fynwy (hefyd 2.3%), Ceredigion (2.4%), Gwynedd (2.8), Sir Gaerfyrddin (2.8%), a Phen-y-bont ar Ogwr (2.8%).

Arhosodd cyfradd diswyddo'r DU ar gyfer y cyfnod o dri mis hyd at fis Mai 2023 yr un fath â'r cyfnod blaenorol o dri mis ar 3.3 fesul 1,000 o weithwyr yn ôl yr Arolwg o'r Llafurlu.¹⁹ Gwelodd cyfradd ddiswyddi'r DU uchafbwynt o 14.4 fesul 1,000 o weithwyr yn y tri mis hyd at fis Tachwedd 2020, ac isafbwynt

¹³ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/realtimeinformationstatisticsreferencetableseasonallyadjusted>

¹⁴ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/realtimeinformationstatisticsreferencetableseasonallyadjusted/current>

¹⁵ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/regionallabourmarket/july2023>

¹⁶ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peoplenotinwork/unemployment/datasets/claimantcountbyunitaryandlocalauthorityexperimental>

¹⁷ Data dros dro.

¹⁸ <https://stats.wales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Unemployment/Claimant-Count/claimantcount-by-welshlocalareas-variable-month>

¹⁹ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peoplenotinwork/redundancies/datasets/redundanciesbyindustryagesexandremploymentratesred02>

hanesyddol o 1.8 fesul 1,000 o weithwyr yn y cyfnod o dri mis hyd at fis Mai 2022.

Yng Nghymru, roedd y gyfradd ddiswyddo ar gyfer y cyfnod o dri mis hyd at fis Mai 2023 hefyd yn 3.3 fesul 1,000 o weithwyr, gostyngiad o 3.6 yn y cyfnod tri mis hyd at Ebrill 2023.²⁰ Roedd y gyfradd ddiswyddo yng

Nghymru yn y cyfnod o dri mis hyd at fis Mai 2023 yn uwch na Swydd Efrog a'r Humber (2.4 fesul 1,000 o weithwyr), yr Alban (2.7 fesul 1,000 o weithwyr), Llundain (2.9 fesul 1,000 o weithwyr) a Dwyrain Lloegr (3.1 fesul 1,000 o weithwyr). Dylid trin y data hwn yn ofalus gan ei fod yn seiliedig ar feintiau sampl cymharol fach ac nid yw wedi'i addasu'n dymhorol.

Anweithgarwch economaidd yn gostwng yn y DU ond yn parhau i fod yn uwch na lefelau cyn-bandemig

Yn y cyfnod rhwng Mawrth 2023 a Mai 2023, bu gostyngiad chwarterol o 0.4 pwynt canran yng nghyfradd anweithgarwch economaidd y DU i 20.8%. Fodd bynnag, nododd Trosolwg o'r Farchnad Lafur y SYG, DU: Gorffennaf 2023²¹ fod y gyfradd anweithgarwch economaidd yn dal i fod yn uwch na'r lefelau cyn-bandemig. Roedd y gostyngiad mewn anweithgarwch economaidd yn y cyfnod diweddaraf o dri mis wedi'i ysgogi'n bennaf gan y rhai anweithgar am 'resymau eraill'²², y rhai sy'n gofalu am deulu neu gartref, a'r rhai sydd wedi ymddeol'. Gostyngodd

cyfradd anweithgarwch economaidd Cymru 0.6 pwynt canran ar y chwarter, i 24.2% rhwng mis Mawrth a mis Mai 2023. Fodd bynnag, Cymru oedd â'r cynnydd mwyaf (0.8 pwynt canran) yn y gyfradd anweithgarwch economaidd o gymharu â'r un cyfnod blwyddyn diwethaf.²³ Yn y cyfnod rhwng mis Mawrth a mis Mai 2023, y gyfradd anweithgarwch economaidd yng Nghymru oedd yr uchaf o'r holl ranbarthau a'r gwledydd datganoledig ac eithrio Gogledd Iwerddon oedd â chyfradd anweithgarwch economaidd o 26.1%.

Twf negyddol mewn CDG yng Nghymru yn 2022 Ch3

Mae'r amcangyfrifon CDG chwarterol (arbrofol) yn dangos bod Cymru a'r Alban wedi profi twf negyddol chwarter ar chwarter mewn cynnyrch domestig gros (CDG) o 2.0% a 0.3% yn y drefn honno yn 2022 Ch3.²⁴ Gwelodd Lloegr a Gogledd Iwerddon dwf CDG chwarterol gwastad o 0%. Dylid bod yn ofalus wrth ystyried yr amcangyfrifon hyn gan y gall data rhanbarthol fod yn gyfnewidiol, ac mae'r data hyn yn dal yn

y cyfnod datblygu ac wedi'u dynodi'n Ystadegau Arbrofol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Mae Ffigur 1 yn dangos y duedd ym mynegeion allbwn cynhyrchu, adeiladu, a gwasanaeth marchnad Cymru o 2020Ch1 i 2022Ch4. Roedd yr allbwn yn gyffredinol yn uwch na'r lefel cyn-covid. Er bod mynegeion cynhyrchu a gwasanaeth marchnad wedi

²⁰ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peoplenotinwork/redundancies/datasets/redundanciesbyindustryagesexandreeploymentratesred02>

²¹ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/uklabourmarket/july2023>

²² Mae "rhesymau eraill" dros fod yn economaidd anweithgar yn cynnwys pobl sy'n aros am ganlyniadau cais am swydd, nad dynt wedi dechrau chwilio am waith eto, nad oes angen neu sydd eisieu cyflogaeth, sydd wedi rhoi rheswm di-gategori dros fod yn economaidd anweithgar, neu nad dynt wedi rhoi rheswm dros fod yn economaidd anweithgar.

²³ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/regionallabourmarket/latest>


²⁴ <https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/gdpukregionsandcountries/julytoseptember2022>

aros yn sefydlog yn 2022Q4 o'i gymharu â 2022Q3, cynyddodd y mynegai adeiladu'n sydyn yn ystod ail hanner 2022. Awgrymodd y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynau fod cynnydd

diweddar mewn adeiladu yn cael ei yrru gan dwf mewn seilwaith, atgyweirio a chynnal a chadw tai preifat, a gwaith diwydiannol.²⁵

Ffigur 1.

Mynegeion allbwn Cymru: tuedd 2020Ch1 - 2022Ch4 (2019=100)



Ffynhonnell: Stats Cymru, [Mynegeion Cynhyrchu ac Adeiladu Cymru \(2019=100\) fesul adran a blwyddyn](#) a [Mynegai Gwasanaethau Marchnad \(2019=100\) fesul blwyddyn ac ardal](#)

Cynyddodd gwerth allforion o Gymru yn y flwyddyn hyd at 2023 Ch1

Mae'r SYG yn nodi y dylid bod yn ofalus hefyd wrth ddehongli data ar fasnach. Mae data fel arfer yn cael eu cyhoeddi mewn prisiau cyfredol neu nominal sy'n golygu nad ydynt wedi'u haddasu i ddileu effeithiau chwyddiant. Ar gyfer y cyfnod hyd at 2023 Ch1 mae'r data masnach mewn nwyddau ar gyfer rhanbarthau'r DU yn dangos y bu cynnydd yng ngwerth allforion ar gyfer holl wledydd y DU yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2023 o gymharu â'r deuddeg mis blaenorol.²⁶

Yng Nghymru cynyddodd gwerth allforion 25.6% i £20.9 biliwn dros y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2023 (o gymharu â chynnydd o 21.6% yn yr Alban, 17.6% yn Lloegr, a 17.9% yng Ngogledd Iwerddon).

Bu twf cymharol uchel yng ngwerth allforion Cymru mewn sawl sector dros y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2023.²⁷ Cynyddodd cyfanswm allforion tanwydd mwynol i £4.6bn yn y flwyddyn hyd at 2023 Ch1, o £2.8bn yn y deuddeg mis blaenorol,

²⁵ https://www.mineralproducts.org/MPA/media/root/Documents/2023/Regional_overview_of_construction_and_mineral_products_markets_in_GB_Spring_2023.pdf

²⁶ <https://www.uktradeinfo.com/trade-data/regional/2023/uk-regional-trade-in-goods-statistics-first-quarter-2023>

²⁷ <https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/uk-regional-trade-in-goods-statistics-first-quarter-2023-accompanying-tables>

cynnydd o 60.2%. Cynyddodd allforion Peiriannau a Thrafnidiaeth i £8.0bn yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2023, o £6.6bn yn y deuddeg mis blaenorol, cynnydd o 21.6%. Cyfanswm y cyfrif allforwyr yng Nghymru yn 2023 Ch1 oedd 3,165 sy'n cynrychioli gostyngiad o 1.2% o'r ffigur yn 2022 Ch1 (gan ddefnyddio'r Dull Rhif Cyfan²⁸). Mae hyn yn cymharu â gostyngiad o 0.7% ar gyfer y DU gyfan yn yr un cyfnodau amser.²⁹ Dangosodd data cyfaint masnach a gyhoeddwyd gan Gyllid a Thollau EM ar gyfer y flwyddyn 2022 fod màs net o 11.1 biliwn cilogram yn cael ei allforio o Gymru, cynnydd o 15.4% ers y flwyddyn 2021.³⁰

Tyfodd gwerth mewnfurion hefyd ym mhob un o wledydd y DU yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2023 o gymharu â'r deuddeg mis blaenorol³¹. Yng Nghymru cynyddodd gwerth mewnfurion 30.2% i £23.9 biliwn dros y cyfnod hwn (o gymharu â chynnydd o 26.8% yn yr Alban, 20.0% yn Lloegr, a 17.0% yng Ngogledd Iwerddon). Cyfanswm y cyfrif mewnfurwyr yng Nghymru yn 2023 Ch1 oedd 8,623, cynnydd o 6.5% o'r ffigur yn 2022 Ch1. Yn y DU gyfan bu gostyngiad o 2.0% yng nghyfanswm cyfrif y mewnfurwyr dros yr un cyfnod.³² Roedd data cyfaint masnach a gyhoeddwyd gan Gyllid a Thollau EM ar gyfer y flwyddyn 2022 yn dangos bod màs net o 23.7 biliwn cilogram wedi'i fewnfurio i Gymru, cynnydd o 2.2% o'r flwyddyn 2021.³³

Rhagolygon economi'r DU

Cyhoeddwyd cymhariaeth o ragolygon annibynnol a dderbyniwyd rhwng 1af a 14eg Gorffennaf 2023 yn Rhagolygon Trysorlys Ei Mawrhydi ar gyfer Economi'r DU ym mis Gorffennaf 2023.³⁴ Y rhagolwg cyfartalog ar gyfer twf CDG y DU yn 2023 oedd 0.2%, sef israddio o 0.1% a ragwelwyd yng nghyhoeddiad Mehefin 2023. Mae'r rhagolwg cyfartalog ar gyfer twf CDG ar gyfer 2024 wedi gostwng o'i gymharu â'r rhagolwg a wnaed yn y mis blaenorol, i 0.7% (o'i gymharu â 1% yn rhagolwg mis Mehefin).

Yn eu Rhagolygon Economaidd Gwanwyn y DU a gyhoeddwyd ym mis Mai 2023, nododd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil

Economaidd a Chymdeithasol (NIESR) eu bod yn disgwyl "twf swrth" ar gyfer CDG y DU yn 2023 o 0.3%, gyda'r argyfwng cost-byw parhaus., yn ogystal â'r posibilrwydd o gynnydd mewn diweithdra,³⁵ a rhagfynegwyd twf CDG y DU o 0.6% yn 2024, gan godi i 1.1% yn 2025. Amlygodd Rhagolwg Economaidd Gwanwyn NIESR fod heriau strwythurol difrifol yn parhau i fodoli yng Nghymru o ran cynhyrchiant gwael, a bod y rhanbarth yn wynebu lefel gymharol uchel o anweithgarwch. Awgrymwyd polisiau ochr cyflenwi cryf i wella cyfranogiad a chynhyrchiant mewn gweithgareddau gwerth uchel.

²⁸ "Dull rhif cyfan": Mae busnes yn cyfrif fel 1 ym mhob rhanbarth y mae ganddynt weithwyr.

²⁹ <https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/uk-regional-trade-in-goods-statistics-first-quarter-2023-accompanying-tables>

³⁰ <https://www.uktradeinfo.com/trade-data/rts-custom-table/>

³¹ <https://www.uktradeinfo.com/trade-data/regional/2023/uk-regional-trade-in-goods-statistics-first-quarter-2023>

³² <https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/uk-regional-trade-in-goods-statistics-first-quarter-2023-accompanying-tables>

³³ <https://www.uktradeinfo.com/trade-data/rts-custom-table/>

³⁴ <https://www.gov.uk/government/statistics/forecasts-for-the-uk-economy-july-2023>

³⁵ <https://www.niesr.ac.uk/wp-content/uploads/2023/05/Spring-2023-UK-Economic-Outlook.pdf>

- Hyder busnesau bach y DU wedi adfer yn 2023 Ch1.
- Cyrhaeddodd y bwlch rhwng marwolaethau a genedigaethau busnes yng Nghymru uchafbwynt yn 2023 Ch1.
- Disgwylir i'r pwysau aros ar BBaChau Cymru drwy gydol y flwyddyn hon yn unol â'r cynnydd a ragwelir mewn cyfraddau llog.

Cynyddodd cyfrif a chyflogaeth pob cwmni Cymreig yn 2022

Nododd Dadansoddiad Maint Busnesau Actif yng Nghymru fod amcangyfrif o 252,100 o BBaChau gweithredol (0-249 o weithwyr) yng Nghymru yn cyflogi tua 719,800 o weithwyr yn 2022. Cyfanwerthu, manwerthu, trafniadaeth, gwestai, bwyd a chyfathrebu oedd y sector BBaCh mwyaf yng Nghymru o ran o gyflogaeth (392,500) a mentrau (63,300), yn cyfrif am bron i 25% o BBaChau gweithredol ac ychydig dros 31% o gyflogaeth BBaChau yng Nghymru.


Mae Ffigur 2 yn dangos y newid canrannol mewn cyfrif menter, cyflogaeth, a throsiant yn ôl band maint yn 2022 o gymharu â 2021 a 2019, yn y drefn honno. Band maint y cwmni bach oedd yr unig grŵp a brofodd gynnydd

mewn cyfrif cyflogaeth a busnes (y ddau i fyny 3.1%) rhwng 2021 a 2022³⁶. Fodd bynnag, gostyngodd trosiant cwmnïau bach dros 9% yn ystod y cyfnod hwn, gyda throsiant cwmnïau canolig eu maint hefyd yn gostwng bron i 7%. O gymharu â lefelau cyn-bandemig (2019), bu gostyngiad yn y cyfrif menter ar draws pob band maint o fusnesau bach a chanolig, yn enwedig ar gyfer microfusnesau. Fodd bynnag, cynyddodd trosiant micro-gwmnïau ychydig dros 2% yn ystod y cyfnod 2019-2022. Roedd gan fusnesau bach a chanolig eu maint newidiadau llai sylweddol mewn cyfrif menter a chyflogaeth o gymharu â microfusnesau yn y cyfnod 2019-2022 ond gwelwyd gostyngiadau mewn trosiant.

³⁶ <https://stats.wales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Businesses/Business-Structure/Headline-Data/enterprises-by-sizeband-area-year>

Ffigur 2.

Canran y newid mewn cyfrif menter, cyflogaeth, a throsiant yn ôl band maint (2021-2022 a 2019-2022)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Maint Busnes Gweithgar, 2022

Datgelodd y Mynegai Rhywedd fod 22,900 o gwmnïau gweithredol dan arweiniad merched yng Nghymru yn 2023.³⁷ Cynyddodd cyfran y cwmnïau arweiniol benywaidd yng Nghymru ychydig dros y flwyddyn (o 0.2%) i 16.7% yn 2023. Rhyw 12.1% o'r twf trosiant uchel roedd cwmnïau yng Nghymru yn 2023 yn cael eu harwain gan fenywod, sef y gyfradd uchaf ar draws holl ranbarthau'r DU. Cynyddodd nifer y cwmnïau a arweinir gan fenywod yng Nghymru sydd wedi sicrhau cyllid allanol tua 1,500 i 5,665 yn ystod 2023.

Dangosodd adroddiad Global Entrepreneurship Monitor (GEM) UK 2022/23³⁸ fod cyfradd cyfanswm gweithgaredd mentergarol cyfnod cynnar (CGM) yn y DU yn 11% yn 2022. Roedd cyfraddau CGM yn amrywio ar draws y gwledydd cartref: Lloegr (11.5%), Cymru (7.8%), yr Alban (8.8%) a Gogledd Iwerddon (8.7%). Dangosodd yr adroddiad fod gan Gymru'r gyfradd bwriad entrepreneuraidd isaf (15.7%) ymhlith holl wledydd cartref y DU, fodd bynnag roedd tua 5.6% o ymatebwyr yng Nghymru yn berchnogion busnes sefydledig, sy'n uwch na'r cyfraddau yn yr Alban (5.4) a Gogledd Iwerddon (5.0).

³⁷ <https://www.thegenderindex.co.uk/images/Narratives/2023/Wales-2023.pdf>

³⁸ <https://www.gemconsortium.org/report/global-entrepreneurship-monitor-uk-report-202223>

Cynyddodd hyder busnesau bach ar ôl tri dirywiad chwarterol yn olynol

Dangosodd mynegai hyder busnesau bach y DU³⁹ rywfaint o adferiad ar ôl gostyngiadau yn y tri chwarter yn arwain at Ch1 2023. Symudodd hyder o -45.8 yn 2022 Ch4 i -2.8 yn 2023 Ch1. Er gwaethaf aros mewn tiriogaeth negyddol, y cynnydd o 43 pwynt yw'r trydydd gwelliant chwarterol mwyaf erioed. Sbardunwyd yr adferiad yn rhannol gan ostyngiadau parhaus mewn prisiau cyfanwerthu ynni yn 2023. Gwelodd holl ranbarthau'r DU gynnydd mewn hyder busnesau bach yn 2023 Ch1. Daeth y mynegai hyder yn gadarnhaol mewn pedwar rhanbarth, yr Alban, Gorllewin Canolbarth Lloegr, De-ddwyrain Lloegr, a Llundain.⁴⁰

Gwelodd pob diwydiant mawr welliant yn hyder busnesau bach yn 2023 Ch1. Er bod y rhan fwyaf o ddiwydiannau yn dal i weld sgoriau negyddol, roedd hyder mewn tiriogaeth gadarnhaol mewn busnesau adeiladu a phroffesiynol, gwyddonol a thechnegol. Masnach cyfanwerthu a manwerthu welodd y cynnydd cryfaf mewn hyder yn y chwarter hyd at 2023 Ch1 o 58.1 pwynt i -25.2.

Roedd balans net y busnesau bach a nododd gynnydd mewn refeniw yn Ch1 2023 yn -7.1%, sy'n awgrymu bod mwy o fusnesau wedi gweld gostyngiad mewn refeniw na chynnydd. 2023 C1 oedd y pedwerydd darlleniad negyddol yn olynol ar gyfer y ffigur hwn. Er gwaethaf y cynnydd mewn hyder a grybwyllwyd uchod, y sector masnach cyfanwerthu a manwerthu a gofnododd y sefyllfa waethaf, gyda darlleniad net o -26.8%. Gwelodd llety a gwasanaethau bwyd y ffigur balans net ail isaf sef -25.9%. Roedd busnesau bach yn fwy optimistaidd am dwf yn y dyfodol, gyda balans net o 12.9% yn disgwyl twf refeniw yn 2023 Ch2.

Cyrhaeddodd balans net y busnesau bach a nododd gynnydd mewn costau gweithredu yr uchaf erioed o 88.7%. Cyfleustodau oedd y ffynhonnell o gostau cynyddol a enwyd fwyaf o hyd (adroddwyd gan 62.7% o ymatebwyr). Roedd ffynonellau cost mawr eraill yn cynnwys cost llafur, cost rhent, a threthiant, a adroddwyd gan 45.3%, 25.3%, a 22.8% o ymatebwyr yr arolwg, yn y drefn honno.

Cynnydd mewn genedigaethau busnes a marwolaethau yng Nghymru yn 2023 Ch1

